



Aelodaeth a
Chefnogaeth
2018-2019

Cefnogwyr Masnachol

**Yn hyrwyddo cydraddoldeb a
chyfiawnder cymdeithasol ym
maes tai yng Nghymru**

www.taipawb.org | [@TaiPawb](https://twitter.com/TaiPawb)

Rydym yn elusen ac yn sefydliad o aelodau, gydag aelodau o'r sectorau tai, cymunedol, a chydraddoldeb yn ogystal â sectorau eraill perthynol yng Nghymru.

Ein tri phrif nod ar gyfer 2017–21 yw:

- **Hyrwyddo hawliau a chynyddu tegwch**
- **Meithrin rhagoriaeth mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth**
- **Rhedeg sefydliad sy'n arloesol ac yn rhagweithiol**

Mae'n haelodau yn allweddol ac yn ein galluogi i gyflawni ein pwrpas i ysbrydoli Cymru i fod yn lle tecach i fyw ynddo.

Mae'n haelodau yn darparu tai a gwasanaethau yn ymwneud â thai ar gyfer 200,000 o bobl amrywiol yng Nghymru, nifer ohonynt o gymunedau sydd yn draddodiadol yn lleiafrifoedd ac ar y cyrion.

Ni yw'r ceffyl blaen wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru, a chawn ein cydnabod yn genedlaethol am ein harbenigedd gwrthrychol ac am arwain agweddau yn y maes.

Drwy'ch cefnogaeth o'n gwaith fe ddewch chi'n gefnogwr o Tai Pawb, gan arddangos eich ymrwymiad at gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Wrth gefnogi'n gwaith hanfodol, byddwch yn elwa o brisiau rhatach ar hyfforddiant, ymgynghoriaeth a digwyddiadau, yn ogystal â chael mynediad am ddim at ystod o adnoddau i'ch cefnogi wrth ichi gwrdd â'ch dyletswyddau cyfreithiol fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys Rheoliadau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gyflawni gwaith ar ran cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol.

Buddion i Gefnogwyr Masnachol

Cymorth gan Tai Pawb

- Mynediad diderfyn rhad ac am ddim i'n Llinell Gymorth ar gyfer eich staff i gyd
- Disgownt o fwy na 25% ar ymgynghoriaeth wedi'i deilwra

Hyfforddiant

- Disgownt o fwy na 25% ar unrhyw un o'n cyrsiau hyfforddi, boed yn un parod neu wedi ei deilwra'n bwrpasol at eich anghenion. Gwelwch ein Llyfryn Hyfforddiant am ragor o fanylion.

Digwyddiadau a Rhwydweithio

- Disgownt o 20% ar bob un o gyfarfodydd briffio a seminarau Tai Pawb
- Disgownt o 20% ar ein cynhadledd flynyddol – yr unig gynhadledd tai a chydraddoldeb yng Nghymru – ynghyd â phrisiau rhatach ar gyfleoedd noddi/arddangos
- Presenoldeb diderfyn rhad ac am ddim yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Tai Cymru
- Cyfleoedd i arddangos eich ymarfer da mewn cysylltiad â chydraddoldeb ac amrywiaeth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, llywodraeth leol a chenedlaethol a'r gymdeithas yn ehangach

Gwybodaeth

- Caiff ein Briffiau Ymarfer Da Manwl ar faterion penodol eu hanfon atoch
- Diweddariadau chwarterol drwy ebost ar y datblygiadau diweddaraf ym meysydd tai a chydraddoldeb

- Mynediad drwy gyfrinair at ystod eang o adnoddau ar ein gwefan sydd ar gael i aelodau'n unig

Dylanwad ac Arloesedd

- Bydd eich aelodaeth yn cefnogi'n gwaith o ddylanwadu ar lunwyr polisi er mwyn gwneud polisi tai yn decach ac i ysgogi syniadaeth newydd yn y sector a thu hwnt
- Mae aelodau Tai Pawb yn hollbwysig i'n gwaith; mae ein cynorthwyo i ddatblygu'n gwasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion y maes yn rhoi cyfle ichi arwain y ffordd gyda'n syniadau a'n datrysiadau arloesol, gan droi amcanion yn ffaith.

Eich Proffil

- Stondin arddangos am ddim a hysbyseb chwarter tudalen yn ein cynhadledd flynyddol (taliadau cynrychiolwyr yn weithredol)
- Disgownt ar noddi'r gynhadledd
- Cynnwys eich logo ar ein gwefan
- Y defnydd o'n logo 'Cefnogwr masnachol Tai Pawb' ar eich gwefan a'ch deunyddiau

Commercial Supporter of Cefnogwr Masnachol



promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

Tâl

Categori Aelodaeth	Tâl blynyddol
Commercial Supporter	£500

Arbedion Enghreifftiol - £663

- Arbed £235 – 1 diwrnod o waith ymgynghori
- £144 – Stondin a hysbyseb chwarter tudalen yn ein cynhadledd flynyddol
- £64 – Dau gynrychiolydd yn mynychu ein cynhadledd flynyddol
- Gwerth £264 – Defnyddio'r Llinell Gymorth ddwywaith



Cofiwch bydd yr arbedion yn cynyddu y mwya'r defnydd y gwnewch o'n gwasanaethau!

Am wybodaeth bellach parthed aelodaeth byddwch cystal â chysylltu gyda **Helen Roach, Rheolwr Cysylltiadau Aelodau:**

Ebost: helen@taipawb.org, neu

Ffôn: **029 2053 7635**

Neu ymgeisiwch ar-lein: www.taipawb.org/cy/aelodaeth

Mae Tai Pawb yn gwmni cyfyngedig drwy warant (5282554) ac yn elusen gofrestrdig (1110078)